

Ein prif nod yw gwneud y farchnad weithio i chi – defnyddwyr ynni. Dyma rhai o'n prif uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Wedi'i gwneud hi'n haws i chi gael bargaen well

Rydym wedi cyflwyno'r diwygiadau mwyaf ers preifateiddio.

I chi
Gwybodaeth well, gliriach a safonau newydd ar gyfer sut mae cyflenwyr yn eich trin – bydd ein hymgyrch **Bydd yn Siopwr Ynni** yn dweud mwy wrthydych.

I gyflenwyr
Rheolau newydd i wneud prisiau hirdymor yn fwy dibynadwy a helpu cyflenwyr bach i wneud busnes.

I'r farchnad
Rydym wedi defnyddio ein pwerau i ysgogi adolygiad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Bydd hyn yn nodi ac yn unioni unrhyw beth a all fod yn rhwystro'r ffordd y mae cystadleuaeth yn effeithio ar brisiau.

£200

Y SWM Y GALLECH EI ARBED O BOSIBL AR EICH BIL YNNI BLYNYDDOL PETAECH YN NEWID CYFLENWR

3 newid mawr rydym wedi'u cyflwyno:

prisiau symlach

biliau cliriach

triniaeth decach

Wedi helpu pobl mewn sefyllfaoedd anodd

Eleni gwnaethom greu strategaeth newydd er mwyn gwella pethau i bobl sydd yn ei chael hi'n anodd cael y gorau o'r farchnad ynni o ganlyniad i oedran, anabledd, salwch neu broblemau ariannol. Mae grwpiau defnyddwyr wedi dweud ei bod yn gosod safon i bawb arall ei dilyn.

£500

Os oes gennych fesurydd rhagdal, gallwch nawr newid eich cyflenwr **hyd yn oed** os ydych mewn dyled – hyd at y swm hwn.



£300 MILIWN

Cyfanswm yr ad-daliadau a wnaeth cyflenwyr i bobl yr oedd angen y taliadau arnynt o dan y **Disgownt Cartrefi Cynnes**

Galw am well ymddygiad gan gyflenwyr

Rydym wedi parhau i fod yn llym wrth orfodi. Eleni gwnaethom wella tryloywder ac ennill pwerau newydd i orfodi cwmnïau i roi iawndal i ddefnyddwyr yn uniongyrchol.

£35.5 MILIWN

Y SWM A DALWYD GAN GYFLENWYR MEWN IAWNDAL A CHOSBAU ARIANNOL YN 2013-14

£100+ MILIWN

Y SWM A DALWYD GAN GYFLENWYR ERS 2010

Gwella diogelwch i fusnesau bach

Os ydych yn rhedeg busnes bach, mae'n rhaid i'ch cyflenwr eich trin yn deg o dan safonau ymddygiad newydd. Os nad yw'n gwneud hynny, byddwn yn rhoi dirwy iddo.

Rydym hefyd wedi ehangu'r rheolau. O'r blaen roedd busnesau wedi'u diogelu os oeddent yn gwario hyd at £5,000 y flwyddyn ar danwydd. Bellach mae'n £10,000.

160,000

NIFER Y BUSNESAU YCHWANEGOL SYDD BELLACH WEDI'U DIOGELU

Buddsoddi mwy sydd wedi gwneud y rhwydwaith yn fwy dibynadwy

Mae costau rhwydwaith – y defnydd o bibellau a gwifrau sy'n cludo nwy a thrydan – yn cyfateb i 22% o'ch bil. Dim ond yn y maes hwn rydym yn rheoleiddio prisiau yn uniongyrchol. Dros y degawd diwethaf, rydym wedi goruchwyllo buddsoddiadau enfawr ac rydym wedi gwella dibynadwyedd yn sylweddol. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i gostau aros yn sefydlog tan 2020.

30%

y gostyngiad mewn toriadau trydan ers 2002

£80 BILIWN

Y swm sydd wedi'i fuddsoddi yn y rhwydwaith ers preifateiddio (prisiau 2013-14)

17%

Y gostyngiad yn y gost o gynnal rhwydweithiau ers preifateiddio

Wedi'ch helpu i arbed arian a dod yn fwy effeithlon o ran ynni

Rydym yn rhedeg ystod o raglenni'r llywodraeth. Eleni, gwnaethom symleiddio ein cyllidebau er mwyn sicrhau eich bod yn cael y mwyaf allan o bob un ohonynt. A gwnaethom lansio un newydd hefyd: y **Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig**, a all eich talu am greu eich ynni eich hun.

£5 BILIWN

Gwerth y cynlluniau amgylcheddol a'r tendrau trawsyrru ar y môr y gwnaethom eu gweinyddu

0.64%

Y gyfran o'r £5 biliwn hwnnw y mae'n ei gostio i redeg y cynlluniau